# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 25 Chwefror 2015** |
| Amser: | **09.32 – 11.37** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
**http://senedd.tv/cy/2646**

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **David Rees AC (Cadeirydd)**<br>**Alun Davies AC**<br>**Janet Finch-Saunders AC**<br>**John Griffiths AC**<br>**Elin Jones AC**<br>**Darren Millar AC**<br>**Lynne Neagle AC**<br>**Gwyn R Price AC**<br>**Lindsay Whittle AC**<br>**Kirsty Williams AC (ar gyfer eitemau 6 i 8)**<br>**Peter Black AC (yn lle Kirsty Williams AC ar gyfer eitemau 1 i 5)** |
| Tystion: | **Yr Athro Gillian Leng, y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE)** |
| Staff y Pwyllgor: | **Llinos Madeley (Clerc)**<br>**Helen Finlayson (Ail Clerc)**<br>**Sian Giddins (Dirprwy Glerc)**<br>**Rhys Morgan (Dirprwy Glerc)**<br>**Enrico Carpanini (Cynghorydd Cyfreithiol)**<br>**Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)** |

**Gwyn Griffiths (Cynghorydd Cyfreithiol)**
**Stephen Boyce (Ymchwilydd)**
**Amy Clifton (Ymchwilydd)**
**Sian Thomas (Ymchwilydd)**

---

**Trawsgrifiad**
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.
1.2 Dirprwyodd Peter Black ar ran Kirsty Williams AC ar gyfer yr eitemau'n ymwneud â'r Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru).
1.3 Nododd y Cadeirydd gydymdeimlad y Pwyllgor â'r Prif Swyddog Nyrsio, a oedd yn methu â bod yn bresennol yn y cyfarfod oherwydd profedigaeth yn y teulu. Cytunodd y Pwyllgor i ddod o hyd i ddyddiad arall i'r Prif Swyddog Nyrsio ddarparu tystiolaeth ar y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru).

## 2 Y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru): sesiwn dystiolaeth 11

2.1 Ymatebodd y tyst i gwestiynau gan yr Aelodau.
2.2 Cytunodd yr Athro Leng i ddarparu'r canlynol ar gyfer y Pwyllgor:

- amlinelliad o raglen waith NICE ar gyfer datblygu canllawiau staffio diogel ar gyfer nyrsio mewn lleoliadau y tu hwnt i wardiau cleifion mewnol i oedolion mewn ysbytai acíwt; ac
- Adroddiad NICE ar ei asesiad o effaith cost ei ganllawiau *Safe Staffing for nursing in adult inpatient wards in acute hospitals*.

## 3 Papurau i'w nodi

3.0a Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 4 a 12 Chwefror 2015.

3.1 Craffu ar Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru: gohebiaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
3.1a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth. Cytunodd yr Aelodau i ystyried unrhyw waith ychwanegol yr hoffent ei wneud mewn perthynas ag adroddiad 'Lle i'w Alw'n Gartref?' y Comisiynydd Pobl Hŷn – Adolygiad i Ansawdd Bywyd a Gofal Pobl Hŷn sy'n byw mewn Cartrefi Gofal yng Nghymru, yn ystod trafodaethau'r Pwyllgor ar ei flaenraglen waith ar 5 Mawrth 2015.

3.2 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Deisebau: P-04-501 Gwneud Canolfannau Dydd ar gyfer pobl hŷn yn ofyniad statudol yng Nghymru

3.2a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a chytunodd i ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau i dynnu sylw at y briff yr oedd wedi'i dderbyn ar 20 Tachwedd, 2014 ar weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

## 4 Cynnig o dan Reolau Sefydlog 17.42(vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ac ar gyfer eitem 1 y cyfarfod ar 5 Mawrth 2015

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru): trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

5.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

5.2 Yn sgil yr angen i ail-drefnu'r sesiwn dystiolaeth gyda'r Prif Swyddog Nyrsio, ac er mwyn sicrhau bod digon o amser i ystyried y dystiolaeth a gafwyd ar egwyddorion cyffredinol y Bil, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i ofyn am estyniad i'r terfyn amser ar gyfer ei adroddiad Cyfnod 1.

## 6 Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru): trafod y dull o graffu yng Nghyfnod 1

6.1 Trafododd y Pwyllgor ei ddull o graffu ar y Bil yng Nghyfnod 1, a chytunwyd ar hyn.

## 7 Gwybodaeth ddilynol ar yr ymchwiliad undydd i farw-enedigaethau yng Nghymru: trafod yr allbwn drafft

7.1 Trafododd y Pwyllgor lythyr drafft at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a chytunwyd ar y llythyr hwnnw.

## 8 Ymchwiliad i sylweddau seicoweithredol newydd ("cyffuriau penfeddwol cyfreithlon"): trafod lansio'r adroddiad

8.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod ei ddull o lansio ei adroddiad ar sylweddau seicoweithredol newydd ("cyffuriau penfeddwol cyfreithlon").